# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**3.00 y.h., DYDD IAU, 12FED MAWRTH, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 9 Mawrth 2026)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | R Medwyn Hughes |
| Nia Wyn Jeffreys | June Jones |
| Menna Trenholme | Olaf Cai Larsen |
| Dafydd Meurig | Dyfrig Siencyn |
| Ioan Thomas | Gwynfor Owen |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Wendy Cleaver | Beth Lawton |
| Angela Russell | Anne Lloyd-Jones |
| Elwyn Jones | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 11 Chwefror 2026 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

## 6. TYNNU RHESTR FER AR GYFER PENNAETH ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (DROS DRO)

I ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais i Aelodau'r Pwyllgor yn unig

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 11-02-2026**

**Presenoldeb:** Cyng. Ioan Thomas (Cadeirydd)
Cyng. R Medwyn Hughes (Is-gadeirydd)

**Cynghorwyr:** Wendy Cleaver, Annwen Hughes, Nia Jeffreys, Elwyn Jones, Anne Lloyd-Jones, June Jones, Beth Lawton, Cai Larsen, Gwynfor Owen, Angela Russell, a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dafydd Meurig a Menna Trenholme

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24ain o Orffennaf 2025 fel rhai cywir

**5. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TÂL GWEITHLU'R CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi, ers 2012 bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol gyda disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi, a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Amlygodd y Prif Weithredwr mai ymarfer da yw cael trosolwg blynyddol o'r polisi a chyhoeddi amodau gwaith staff yn unol â gofynion y Ddeddf. Nodwyd bod trafodaethau a negodi ynglŷn â chodiadau cyflog blynyddol yn digwydd tu allan i'r Cyngor - Prif Swyddogion yn cael eu pennu gan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cydgyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol yn pennu cyflogau o dan lefel prif swyddogion.

Yng Ngorffennaf 2025 daeth yr undebau sy'n cynrychioli prif swyddogion, a'r cyflogwr i gytundeb ar gynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob prif swyddog ac yn ddiweddarach yn ystod yr Haf, cynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob Aelod o staff. Cytunwyd hefyd i ddileu pwynt 2 o'r strwythur tâl, gyda hynny i ddod yn weithredol o fis Ebrill 2026 ymlaen.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- pryder colli swyddogion i awdurdodau cyfagos
- angen ymestyn eglurhad y frawddeg ar gymarebau, a chynnwys mwy o wybodaeth rhwng cymarebau'r cyflog uchel a'r cyflog isaf (llawn amser).
- angen mwy o wybodaeth am dreuliau cynhaliaeth – angen bod yn dryloyw

Mewn ymateb i gwestiwn am gyflogau prif swyddogion a sut roedd y lefelau yn cael eu gosod o ystyried bod amrywiaeth eang yn y cyflogau, a phryd yr adolygwyd y cyflogau ddiwethaf, nododd y Prif Weithredwr mai Aseswyr Allanol o gwmni Korn Ferry sydd yn gosod, asesu ac adolygu lefelau cyflog prif swyddogion ac y bydd asesiad yn cael ei weithredu pan fydd angen penodi uwch swyddog i swydd wag / newydd. Ategodd bod adolygiad mewnol o'r cyflogau, sy'n cymharu cyflogau prif swyddogion gyda chyflogau cyfatebol Awdurdodau cyfagos, wedi ei weithredu rhyw dair mlynedd yn ôl, ond amserol fyddai cynnal adolygiad mewnol. Nododd y byddai hyn yn fodd o sicrhau cynaladwyedd, ac y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfnod disgwyliedig i brif swyddog gymryd cyfrifoldeb ychwanegol / ysgwyddo baich, nodwyd bod y Cyngor yn ceisio osgoi sefyllfa o roi cyfrifoldebau ychwanegol gan nad yw hynny yn gynaliadwy ar sail tymor canolig / hir. Bydd anogaeth i arfarnu swydd os yw'r swyddogaethau / cyfrifoldebau yn parhau i gynyddu neu yn cael ei ystyried fel trefniant parhaol. Bydd arfarniad yn cael ei wneud drwy ddefnyddio methodoleg allanol sydd yn edrych ar gyfrifoldebau'r swydd, swyddi cyfatebol yng Ngwynedd a ffactorau cyflawni swydd. Er hynny, er bod pob Cyngor yn defnyddio'r un fethodoleg, gall amrediad cyflogau fod yn wahanol gyda graddfeydd Gwynedd yn ymddangos yn is na Chynghorau cyfagos.

Mewn ymateb i gais am gyflogau Cynghorau cyfagos a'r rhesymeg dros rai o'r gweithlu yn gadael i'r Cynghorau hynny, nodwyd y bydd Gwynedd yn edrych i arfarnu swyddi gyda bwriad o sefydlu panel cymedroli i edrych ar gysondebau, cymariaethau, teitlau swyddi a'r elfen gystadleuol gyda sefydliadau / cynghorau eraill. Ategwyd y bydd canlyniadau Arolwg Staff Gwynedd, sef arolwg sy'n rhoi cyfle allweddol i bob cydweithiwr gyflwyno adborth a barn dienw am sut le ydi'r Cyngor i weithio, ar gael yn fuan.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Tâl (drafft)

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor Llawn ar Fawrth y 5ed 2026, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2026/27**
- **Galw ar y Prif Weithredwr i gynnal adolygiad mewnol i gyflogau Uwch Swyddogion fel modd o sicrhau cynaladwyedd, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau.**
- **Cais am adolygiad i dreuliau cynhaliaeth – i'w ystyried fel ychwanegiad i bolisi tâl 2027.**

Nodyn:

- Pwynt 4 o'r Polisi Tâl: Swyddi o dan lefel Prif Swyddog - angen ymestyn eglurhad y frawddeg ar gymarebau, a chynnwys mwy o wybodaeth rhwng cymarebau'r cyflog uchel a'r cyflog isaf (llawn amser). Cais i addasu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:25